# Cofnodion Cyfarfod 6/11/2025

**Presennol:** Cyng Dilys Evans, Eifion Roberts, Rhys Evans, Eluned Jones, Clare Mackintosh, Huw Symonds, Ken Edwards, Sion McGuiness, Dilwyn Morgan (Aelod Lleol Cyngor Gwynedd) a Huw Antur (*Clerc*).

**Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng Moira Mai a Jacqueline Allen.

**Cyhoedd:** Neb yn bresennol.

1. **Y Maer:** Estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod gan y Maer, y Cyng Dilys Evans, ac fe gyfeiriodd at brofedigaeth y cynghorydd Fiona Hopkins o golli ei gwr Neil yn gynharach yn y dydd. Estynnwyd cydymdeimlad dwysaf y cyngor i Fiona a'i theulu.

   **Trafodaeth gyda swyddogion Parc Cenedlaethol Eryri.** Croesawyd Jonathan Cawley (Prif Weithredwr), Edward Jones (Swyddog Eiddo) ac Arwel Morris (Warden Ardal) i'r cyfarfod i drafod trefniadau a ffioedd parcio ym maes parcio Llyn Tegid.
   Rhoddwyd cyd destun ariannol y Parc Cenedlaethol, a nodwyd y cyfyngiadau presennol, ac fe eglurwyd fod opsiynau ariannol y Parc yn cynnwys cynyddu incwm masnachol, torri cyllidebau cyfalaf neu doriadau staffio.
   Rhoddwyd argymhellion y swyddogion, a fydd yn cael eu cyflwyno i Awdurdod y Parc fis Rhagfyr, sef cynyddu ffi parcio (hyd at 4 awr) o £3 i £5, a chynyddu ffi parcio (dros 4 awr) o £6 i £8, gyda thrigolion lleol yn cael parcio am ddim am hyd at hanner awr nos a bore.
   Nodwyd y byddai'r maes parcio ar gau dros nos (10pm hyd 6am) a'r safle yn cael ei goruchwylio gan gamerâu ANPR a chylch cyfyng.
   Yn dilyn trafodaeth fe gytunwyd i'r Cyngor Tref wneud cais i'r Parc Cenedlaethol i gynyddu'r cyfnod parcio am ddim o 30 munud i 45 munud. Pwysleisiwyd hefyd yr angen i gael budd cymunedol o'r trefniant trwy gyfrwng ardoll (tebyg i drefniant Cyngor Gwynedd ar feysydd parcio'r Grin a'r Plase), neu i addasu canllawiau Cronfa Gymunedol y Parc fel ei bod yn blaenoriaethu ardaloedd sydd o dan bwysau yn ystod y prif dymor ymwelwyr. Pwysleisiwyd yr angen i gael trefniant cynaliadwy, a bod angen gofalu nad yw'r Parc Cenedlaethol yn ymbellhau oddi wrth y gymuned leol. Gofynnwyd felly i swyddogion y Parc i ail edrych ar yr holl drefn er mwyn gofalu fod cymunedau yn elwa o'r trefniant.
   Awgrymwyd y dylid ail sefydlu Pwyllgor Ymgynghorol Tegid, Celyn a Thryweryn i fod yn llais i gymunedau lleol ar faterion y Parc Cenedlaethol.
   Gofynnwyd hefyd i'r swyddogion baratoi ymlaen llaw at drefniadau parcio gwyliau banc mis Mai 2026 er mwyn sicrhau trefniadau parcio addas a chyfrifol.
   Diolchwyd i'r swyddogion am y drafodaeth.

2. **Buddiant:** Ni ddatganwyd buddiant.

3. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion cyfarfod 2/10/25.

4. **Materion y Clerc / Materion yn codi:**

    i. Sedd Wag y Cyngor: Adroddwyd na dderbyniwyd cais am etholiad, a bod y cyngor felly yn medru cyfethol aelod newydd. Cytunwyd i hysbysebu'r cyfle yma.

    ii. Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd: Ni dderbyniwyd gwybodaeth bellach am y datblygiad yma.

    iii. Grant Gwynedd Ni: Rhoddwyd adroddiad ar y gwaith o osod raciau beics a bocsys blodau ychwanegol i'r dref, a nodwyd fod sgyrsiau yn parhau gyda swyddogion Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd a swyddogion Adran Priffyrdd Llywodraeth Cymru.

    iv. Gwaith celf y Bala: Rhoddwyd adroddiad ar y trafodaethau i adleoli gwaith celf Canolfan Cywain i safle gyhoeddus yn ardal y Bala. Cytunwyd fod angen symud ymlaen i gael costau ar gyfer y datblygiad, a gofynnwyd i'r Pwyllgor Asedau i ymgymryd â'r gwaith yma.

    v. Meinciau Tomen y Bala: Derbyniwyd darlun o'r meinciau arfaethedig, ynghyd â'r plac i'w osod arnynt. Cytunwyd fod y meinciau a'r plac yn addas iawn.

    vi. Canolfan Hamdden Penllyn: Derbyniwyd ymateb gan swyddogion y ganolfan yn egluro fod materion masnachol weithiau yn arwain at gau rhai elfennau o'r ganolfan i'r cyhoedd.

5. **Cyngor Gwynedd:** Cafwyd adroddiad gan y Cyng Dilwyn Morgan, a dywedodd ei fod yn gweithio hefo swyddogion Cyngor Gwynedd ar y bwriad i gael llinellau melyn ychwanegol i'r dref, ar welliannau i balmentydd y Stryd Fawr, ar drefniadau parcio ger y Clwb Rygbi, ar yr angen am arwydd 'ysgol' ychwanegol ger Ysgol Godre'r Berwyn, ac ar Strategaeth Arwyddion newydd i'r dref, a bod yr ymgynghorwyr sydd wedi datblygu'r syniadau yn barod i ddod i'w cyflwyno i'r Cyngor Tref.

6. **Is-bwyllgorau:**

    **Is bwyllgor Asedau:** Nodwyd y bydd y pwyllgor yn arwain ar y gwaith o adleoli gwaith celf Canolfan Cywain.

    **Is bwyllgor Tref Gyfeillgar, Adnoddau a'r Nadolig:** Adroddwyd fod Goleuadau Nadolig wedi eu harchebu, a nodwyd hefyd bapur briffio Comisiynydd Pobl Hyn Cymru ar wneud Cymru yn genedl o gymunedau oed gyfeillgar.

    **Is bwyllgor Cyllid:** Nodwyd fod cyfarfod Tachwedd 6ed wedi ei ohirio, ond fod bwriad i'w ail drefnu at ddechrau Ionawr 2026.

    **Is Bwyllgor Bioamrywiaeth:** Nodwyd y bydd angen paratoi Adroddiad Adran 6 erbyn diwedd Rhagfyr.

**Is Bwyllgor Twristiaeth Gynaliadwy:** Adroddwyd fod cyfarfod wedi ei drefnu gan Barc Cenedlaethol Eryri ar Dachwedd 20fed i drafod prosiect twristiaeth cynaliadwy, ac fe gytunodd y Cyng Dilys Evans ac Eifion Roberts i wneud ymdrech i gynrychioli'r cygor yn y cyfarfod. Cytunwyd hefyd i anfon y wybodaeth ymlaen i Grŵp Busnes y Bala.

**Cynrychiolwyr ar fudiadau:**

**Un Llais Cymru:** Cafwyd adroddiad gan y Maer ar gyfarfod diweddar, ac fe gytunwyd i gwblhau holiadur ar waith Pwyllgor Meirionnydd Un Llais Cymru.
**Grŵp Busnesau'r Bala:** Cafwyd adroddiad gan y Cyng Rhys Evans ar waith y grŵp, hyn yn cynnwys trefniadau Noson Siopa Hwyr y Bala.
**Cwmni Pum Plwy Penllyn:** Adroddwyd fod y gwaith Gwedd 2 Canolfan Bro Tegid wedi cychwyn, a bod trefniadau'r Cynllun Trafnidiaeth Gymunedol yn dod at ei gilydd.

7. **Materion Cynllunio**: Nid oedd materion cynllunio i'w hystyried.

*8.* **Materion Cyllid:**

**i.** Ystyriwyd y sefyllfa ariannol ddiweddaraf, a nodwyd fod £13,063 yn y cyfri cyfredol, £37,208 yn y cyfri cadw a £513 yng Nghronfa'r Maer ddiwedd Hydref.

**ii.** Cymeradwywyd taliadau am lanhau Llochesi Bws, cyflog y Clerc, anfoneb am waith cynnal Toiledau Cyhoeddus y Bala, gwasanaeth PAYE y cyngor, hysbyseb y Cyfnod (sedd wag y cyngor) ac aelodaeth SLCC am y flwyddyn.

**9. Gohebiaeth:**

i) Cyngor Gwynedd: Derbyniwyd Holiadur Strategaeth Gwastraff a Holiadur Cynghorau Cymuned i'w cwblhau. Derbyniwyd gwybodaeth y bydd y Tim Tacluso Ardal Ni yn y Bala ddiwedd Tachwedd.

ii) Parc Cenedlaethol: Derbyniwyd gwahoddiad i'r cyfarfod Twristiaeth Cynaliadwy ar Dachwedd 20fed.

iii) Un Llais Cymru: Derbyniwyd gwybodaeth am bapur briffio Cymuned Oed Gyfeillgar Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru.

iv) Heddlu: Derbyniwyd cais gan yr heddlu i ddod i gyfarfod nesaf y cyngor i gyflwyno'r Cwnstabl Aled Hughes.

v) Clwb Pêl-droed y Bala: Derbyniwyd gwahoddiad i gyfarfod ar Dachwedd 10fed, ac fe gytunodd y Cyng Huw Symonds i fynychu'r cyfarfod.

vi) Llinellau Melyn ger Heol y Castell – gofynnwyd i'r Cyng Dilwyn Morgan i drafod hyn gyda swyddogion priffyrdd Cyngor Gwynedd.

vii) Atgyweirio Cloc y Dref: Derbyniwyd gwybodaeth gan gwmni yn hyrwyddo eu gwaith o atgyweirio clociau. Cytunwyd i adael y mater am y tro.

viii) Cyngor Gwynedd: Derbyniwyd copi o Rybudd Gwaharddiad Parcio Dros Dro ar y Stryd Fawr, ac chopi o Ymgynghoriad Gorchymyn Parcio Newydd sy'n berthnasol i feysydd parcio'r Grin a'r Plase.



ARWYDDWYD........................................................(MAER) / / ......................................(CLERC)

ix) Sul y Cofio: Derbyniwyd gwybodaeth am drefniadau Sul y Cofio ar Dachwedd 9fed.

10. **Materion lleol y Cynghorwyr Tref:**

i) Derbyniwyd cwestiwn am drefniadau dangos ffilmiau yn Theatr Derek Williams. Cafwyd eglurhad fod y theatr yn gwneud rhai newidiadau sydd yn golygu na fydd ffilmiau yn cael eu dangos am y tro.

Daeth y cyfarfod i ben am 9pm a bydd y cyfarfod nesaf Nos Iau 11 Rhagfyr 2025.



ARWYDDWYD......................................................(MAER) / / .....................................(CLERC)